

ARDDODIAID

<u>Arddodiaid dirediad</u>	Ni ellir ychwanegu terfyniadau personol	e.e. gyda, â, cyn, fel, megis, mewn, wedi
<u>Arddodiaid rhediadol</u>	Y rhai sydd â ffurfiau personol	e.e. at > ataf ar > arnaf tros > trosof gan > gennyf wrth > wrthyf i > i mi

Arddodiaid sy'n dilyn berfau

am	â	ar	wrth
anghofio am breuddwydio am dyheu am siarad am gwybod am meddwl am pryderu am ysgrifennu am	cymysgu â delio â siarad â dod â cyfarfod â /cwrdd â cydweithio â cyffwrdd â cymharu â ffarwelio â mynd â peidio â ymladd â ymweld â	aflonyddu ar amharu ar blino ar dibynnu ar dylanwadu ar edrych ar gweiddi ar gwenu ar gwrando ar syllu ar sylwi ar ymosod ar	dweud wrth digio wrth glynu wrth oddi wrth lladrata oddi wrth
Yn	At	i	rhag
ymddiried yn	anelu at cyfrannu at mynd at ysgrifennu at (rywun) anfon at	gofyn i ysgrifennu i (rywle) anfon i	achub rhag amddiffyn rhag cysgodi rhag dianc rhag ffoi rhag rhybuddio rhag
Dros			
chwarae dros			

Gwylwch rhag cyfieithu o'r Saesneg:

e.e. Rwyf wedi penderfynu i fynd. X

Rwyf wedi penderfynu mynd.✓

Nid oes arddodiad 'i' yn dilyn rhai berfau:

addo, anghofio, arfer, blino, bwriadu, bygwth, casáu, ceisio, cofio, cychwyn, dechrau, dewis, dymuno, dysgu, eisiau, gallu, gobeithio, gorffen, gwrthod, haeddu, hoffi, meddwl, methu, mwynhau, mynnu, ofni, penderfynu, trefnu, ymarfer.

e.e. Rwyf wedi penderfynu mynd.

Mae e wedi addo gweithio'n galed.

Wyt ti wedi cofio cau'r drws?